# CYNGOR CYMUNED DOLWYDDELAN

Roedd Agoriad Mawr Adeilad Coffa Cwt Hers ym mynwent Bryn y Bedd yn llwyddiant mawr, gyda niferoedd da yn dod i'r digwyddiad ar yr 28ain o Fedi 2024. Roedd y tywydd yn berffaith, a'r adeilad coffa, y Cwt Hers, wedi'i agor yn swyddogol gan Mr Gwyn Roberts, clerc ymddeoledig y Cyngor Cymuned.



Mae Cwt Hers bellach yn cynnig gofod aml-ddefnydd yn y fynwent, lle mae modd cynnal gwasanaethau a chynnig lloches yn ystod tywydd garw. Mae hefyd yn amgueddfa a chanolfan gwybodaeth gan roi cipolwg diddorol ar hanes Dolwyddelan. Mae cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i gwblhau gwaith adnewyddu wal ddwyreiniol y fynwent a chreu taith gerdded goffaol trwy'r coed ar gyfer gwasgaru llwch.





Ni fyddai wedi bod yn bosibl cwblhau'r prosiect heb waith caled nifer o unigolion, sefydliadau a chontractwyr Dolwyddelan. Dymuna Gyngor Cymuned Dolwyddelan ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith.




Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government
CONWY
theborzellotrust
DOLWYDDELAN